



Pecyn ymgeisio

Rheolwr Rhaglen Cymru Gyfan – Datblygu Ymchwilwyr

Rydym yn chwilio am Reolwr Rhaglen ar gyfer Cymru Gyfan i sefydlu prosiect newydd cyffrous. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), ac mae'n gyfle unigryw i helpu i gynyddu gallu prifysgolion yng Nghymru i weithio mewn partneriaeth, i arwain ac i gydweithio.

Drwy gyfrwng y prosiect, byddwn yn ehangu'r rhwydwaith cenedlaethol o Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar rydym eisoes wedi'i sefydlu er mwyn cyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau, cymorth a gweithgareddau rhwydweithio a fydd yn cael effaith sylweddol. Byddwn hefyd yn sefydlu mentrau cyfnewid gwybodaeth a mentoriaeth traws-sefydliadol ar gyfer ymchwilwyr ar bob cam gyrfaol. Byddwn yn cyfoethogi partneriaethau ymchwil yng Nghymru drwy ddarparu grantiau bychain ar gyfer ymchwil gydweithredol, a byddwn yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd cyhoeddus ehangach er mwyn iddynt ddeall gwerth ymchwil.

Bydd y Rheolwr Rhaglen yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am lwyddiant y prosiect. Drwy adeiladu ar enw da presennol y Gymdeithas a'i pherthnasoedd â rhanddeiliaid, bydd y deiliad swydd yn datblygu ac yn trefnu ystod o weithgareddau newydd. Bydd yn cynnal perthynas waith dda gyda'n cyllidwr, ac yn cydweithio â'r Prif Weithredwr i gyflwyno cynigion am gyllid ar gyfer rhagor o weithgareddau. Bydd hefyd yn sicrhau bod y prosiect yn ategu gweithgareddau presennol prifysgolion ac yn ychwanegu gwerth iddynt, a'i fod yn cyflawni amcanion strategol ehangach y Gymdeithas. Bydd yn atebol i'r Prif Weithredwr ac yn cael cefnogaeth gan Swyddog Prosiect.

Dyma gyfle rhagorol i chwarae eich rhan wrth ddylanwadu ar ddyfodol addysg uwch ac ymchwil yng Nghymru.

Ffeithiau allweddol am y rôl hon

Cyflog	£32,000 – £37,000 yn dibynnu ar broofiad
Pensiwn a buddiannau	Mae gan y deiliad swydd yr hawl i ymuno â'n cynllun pensiwn, gyda'r cyflogwr a'r cyflogai ill dau'n cyfrannu hyd at 5% o'r cyflog gros i'r cynllun bob mis. Rydym yn cynnig tâl salwch uwch a thâl mamolaeth sy'n uwch na'r isafswm statudol.
Lleoliad	Trefniant gweithio hybrid - rydym yn rhagweld y bydd y deiliad swydd yn rhannu ei waith rhwng ein swyddfa yng Nghaerdydd a'i gartref (dylid cytuno ar y manylion gyda'r rheolwr llinell).
Rheolwr llinell	Prif Weithredwr
Telerau cyflogaeth	Swydd amser llawn, cyfnod penodol am 3 blynedd o ddyddiad y penodiad. Byddwn yn ystyried cynigion ar gyfer rhannu swydd ac ar gyfer secondiadau neu drefniadau tebyg.
Oriau	35 awr (5 diwrnod) yr wythnos, fel arfer yn gweithio rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Mae lle i weithio'n hyblyg; bydd y patrwm oriau yn cael ei gytuno gyda'r rheolwr llinell. Efallai y bydd yn ofynnol i'r deiliad swydd weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd.
Gwyliau blynyddol	Y lwfans gwyliau sylfaenol yw 25 diwrnod, i'w gymryd gyda chytundeb y rheolwr llinell. Rydym yn cynnig 8 diwrnod statudol a 7 diwrnod arferol o wyliau hefyd.



Teithio	Bydd angen teithio rhywfaint yng Nghymru fel rhan o'r swydd, ac aros dros nos o dro i dro. Bydd treuliau yn cael eu had-dalu.
----------------	--

Prif ddyletswyddau

Sefydlu a rheoli'r prosiect

- Gweithio gyda'r Prif Weithredwr i arwain y gwaith o sefydlu'r prosiect (gweler t.4 am ragor o fanylion), ei sefydlu'n effeithiol o fewn cynlluniau gwaith cyffredinol y Gymdeithas, a gosod amserlen gyflawni
- Cysylltu â CCAUC mewn perthynas â gweithredu a datblygu'r prosiect
- Gweithio gyda'r Prif Weithredwr i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, a bod Cyngor y Gymdeithas (bwrdd ymddiriedolwyr y Gymdeithas) yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd
- Gweithio gyda chydweithwyr eraill i sicrhau bod gweithgareddau'r prosiect yn cael eu monitro a'u gwerthuso, yn seiliedig ar y cyraeddiadau y cytunwyd arnynt gyda CCAUC
- Datblygu'r systemau a'r fframweithiau gofynnol sydd eu hangen i gyflawni gweithgareddau'r prosiect yn llwyddiannus, gan gynnwys cadw cofnodion am gyfranogwyr
- Sicrhau bod arferion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu cynnwys yn y gweithgareddau

Cyflawni gweithgareddau'r prosiect

Dylunio a gweithredu gweithgareddau a fydd yn cyfoethogi partneriaethau a chydweithredu ymhlith prifysgolion yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Adeiladu ar ein gwaith presennol gydag Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar: sefydlu rhaglenni gweithgareddau yn unol ag argymhellion sydd yn cael eu gwneud i'r Gymdeithas, goruchwyllo'r gwaith o gyflawni digwyddiadau, rheoli datblygiad ein rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar, a'n cynrychioli mewn trafodaethau gyda rhanddeiliaid Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar eraill
- Sefydlu dau gynllun mentora pilot ar gyfer Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar ac ymchwilwyr canol gyrfa/uwch
- Sefydlu'r fframwaith ar gyfer cynllun grant i gefnogi cydweithio ar draws Cymru ar ymchwil
- Cydlynu gwaith i gomisiynu adolygiad o berfformiad Cymru yn effaith ymchwil REF 2021
- Gweithredu fel rheolwr llinell a darparu cymorth i Swyddog Prosiect i ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau prosiect
- Gweithio gyda'r Swyddog Cyfathrebu i reoli materion cyfathrebu allanol y prosiect, a chynhyrchu deunyddiau perthnasol, gan gynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Tasgau eraill

- Sicrhau dull cydgysylltiedig drwy weithio'n agos gyda chydweithwyr sy'n gyfrifol am weithgareddau eraill o fewn y prosiect
- Defnyddio cyfarfodydd, dulliau cyfathrebu a chynllunio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff eraill am gynnydd y prosiect
- Cyfrannu at ddatblygu strategaeth a chynlluniau gwaith cyffredinol y Gymdeithas
- Cyflawni dyletswyddau eraill fel y gofynnir yn rhesymol gan y Prif Weithredwr

Manyleb person

Wrth gwblhau'r adran Datganiad Ategol ar y ffurflen gais, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dangos sut rydych chi'n bodloni pob un o'r meini prawf Hanfodol (a'r rhai Dymunol lle bo'n bosibl).

	Meini prawf	Hanfodol	Dymunol	
Gwybodaeth a phrofiad	Profiad sylweddol a llwyddiant amlwg wrth weithredu prosiectau, gan gynnwys defnyddio offer rheoli prosiect priodol	ü		
	Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r sector addysg uwch ac ymchwil yng Nghymru ac/neu yn y DU	ü		
	Profiad o drefnu digwyddiadau	ü		
	Profiad o reoli perthnasoedd â rhanddeiliaid, gan gynnwys gyda chyllidwyr prosiectau		ü	
	Gwybodaeth a dealltwriaeth o fentora neu fecanweithiau cymorth proffesiynol perthnasol eraill		ü	
	Cymryd rhan mewn rhedeg cynlluniau grant a/neu mewn rheoli perthnasau â grantïon		ü	
Sgiliau, galluoedd ac agwedd	Gallu cryf i gynllunio, trefnu a chyflawni amcanion, a chadw nodau lefel uchel mewn cof tra'n rhoi sylw i fanylion	ü		
	Y gallu i ennill a chytuno ac ymrwymo i gyd-nodau gan rhanddeiliaid eraill	ü		
	Sgiliau mewn cynllunio ariannol, rheoli cyllidebau ac adrodd	ü		
	Y gallu i reoli, cefnogi a datblygu aelodau eraill o'r tîm, a dirprwyo gwaith yn glir ac yn briodol	ü		
	Y gallu i wneud penderfyniadau clir, pwylllog wedi'u llywio gan dystiolaeth, ac i gymryd cyfrifoldeb am ganlyniadau penderfyniadau	ü		
	Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol	yn y Saesneg	✓	
		yn y Gymraeg		✓
	Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	ü		
	Ymrwymiad i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Gymdeithas fel sefydliad dwyieithog	ü		
	Ymrwymiad i / diddordeb yng nghenhadaeth a nodau'r Gymdeithas	ü		

Ynghylch y prosiect

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru wedi cael ei hariannu gan Gyngor Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i ddarparu cynllun cymorth cenedlaethol newydd ar gyfer datblygu ymchwilwyr. Mae hyn yn adeiladu ar grant bach gan CCAUC i ddatblygu ein gwaith gydag Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar. Bydd y prosiect yn cael ei lansio yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, ac rydym wedi ymrwymo i gyllido'r swydd hon am 3 blynedd.

Bydd gweithgareddau'r flwyddyn gyntaf mewn pedwar maes:

- 1. Datblygu ein rhwydwaith cymorth trawsddisgyblaethol cenedlaethol ymhellach ar gyfer Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar;** cyflwyno seminarau a digwyddiadau rhwydweithio strwythuredig, treialu cynllun mentora cenedlaethol, a chefnogi Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar i lunio ein gwaith yn y maes hwn
- 2. Treialu dwy fenter gymorth ar gyfer ymchwilwyr canol gyrfa ac uwch ymchwilwyr:** cynllun 'paru' mentor i gefnogi'r berthynas rhwng ymchwilwyr o wahanol sefydliadau; a hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth drwy baru ymchwilwyr academaidd â llunwyr deddfau a pholisïau
- 3. Cynyddu cydweithrediad a phartneriaethau ymchwil:** cefnogi gwaith Rhwydwaith Arloesi Cymru drwy ddarparu grantiau bach ar gyfer cynigion ymchwil cydweithredol yn gynnar yn y datblygiad; a chryfhau llais Cymru mewn partneriaethau ymchwil strategol allweddol
- 4. Dathlu rhagoriaeth a chynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o ymchwil:** ymgysylltu â chynulleidfaoedd ehangach i ddeall gwerth ymchwil a gwaith polisi cysylltiedig; dyfarnu medalau ar gyfer ymchwilwyr gyrfa gynnar rhagorol; a chomisiynu adolygiad annibynnol o effaith ymchwil Cymru yn REF 2021.

Ynghylch y Gymdeithas

Cymdeithas Ddysgedig Cymru yw academi genedlaethol Cymru. Rydym ni'n hyrwyddo rhagoriaeth ar draws yr holl feysydd academaidd a thu hwnt. Rydym ni'n defnyddio'r wybodaeth sydd gan arbenigwyr y Gymdeithas i hyrwyddo ymchwil, ysbrydoli dysgu, a chynnig cyngor polisi annibynnol. Mae'r Gymdeithas yn elusen Siarter Frenhinol gyda bron i 600 o Gymrodyr, ac mae hi'n cael ei hystyried yn uchel ei pharch fel llais awdurdodol, annibynnol a chredadwy ym mywyd cyhoeddus Cymru.

Mae ein strategaeth 2018-23 yn tynnu sylw at bedwar prif amcan gweithredol:

- 1. Hyrwyddo ymchwil**
Cyflwyno digwyddiadau ansawdd uchel, dathlu rhagoriaeth, a chynnig llwyfannau i ymchwilwyr gyrfa gynnar
- 2. Cyfrannu arbenigedd**
Cydlynu ymatebion arbenigol i ymgynghoriadau, cefnogi llunio polisi ar sail tystiolaeth, a defnyddio ein harbenigedd i 'arwain y drafodaeth' mewn meysydd allweddol
- 3. Hybu dysg a thrafodaeth**
Cyfathrebu cyflawniadau ein Cymrodyr, cefnogi ysgolion a cholegau a datblygu trafodaeth gyhoeddus ar faterion o bwys
- 4. Datblygu'r Gymrodoriaeth**
Cynyddu ymwneud ein Cymrodyr â'n gwaith, ethol amrywiaeth ehangach o Gymrodyr, a gweithio gyda sefydliadau sy'n hyrwyddo amrywiaeth

Y broses ymgeisio

- Os hoffech gael rhagor o wybodaeth cyn penderfynu ymgeisio ai peidio, cysylltwch ag Amanda Kirk (applications@lsw.wales.ac.uk) i drefnu sgwrs anffurfiol.
- Mae'n rhaid i chi wneud eich cais yn defnyddio ein ffurflen gais swyddogol. Dylech ddarparu pob gwybodaeth berthnasol ar y ffurflen, gan na fyddwn yn ystyried CV na lythyr eglurhaol yn rhan o'ch cais. Dylech sicrhau bod y ddogfen derfynol yn cael ei chadw ar fformat Word neu PDF.
- Pan fyddwch chi'n ysgrifennu'r Datganiad Cefnogol, rhowch wybod i ni **sut rydych chi'n bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol** ym Manyleb yr Unigolyn (a'r meini prawf dymunol os yn bosibl). Rydym ni'n argymhell eich bod yn ymdrin â'r meini prawf yn eu trefn, gan eu defnyddio fel penawdau; bydd hyn yn ein helpu i asesu eich cais yn haws. Dylech ddweud wrthym hefyd **pam fod gennych ddiddordeb yn y swydd hon**.
- E-bostiwch eich cais at **Amanda Kirk** (applications@lsw.wales.ac.uk) erbyn **17.00 ar 19 Ionawr 2022**.
- Cwblhewch ein Holiadur Monitro Cyfle Cyfartal yn <https://www.smartsurvey.co.uk/s/B1H26X/> Mae'r arolwg hwn yn ddiennw ac ni chaiff ei ystyried fel rhan o'r broses ymgeisio.

Beth sy'n digwydd nesaf?

- Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth e-bost at yr holl ymgeiswyr. Os nad ydych chi'n derbyn cydnabyddiaeth cyn **10.00 ar 20 Ionawr**, cysylltwch â ni. Ni ellir ein dal yn gyfrifol am geisiadau nad ydynt yn ein cyrraedd, neu sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau.
- Byddwn yn asesu'r ceisiadau ac yn dethol nifer o ymgeiswyr ar gyfer cyfweiliad. Os byddwn yn eich dewis chi, byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol. **Rydym yn rhagweld y byddwn yn cynnal cyfweiliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 31 Ionawr neu 7 Chwefror**. Os nad ydych chi wedi derbyn gwahoddiad i gyfweiliad o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech ystyried bod eich cais yn aflwyddiannus.
- Byddwn yn gwneud cynnig amodol o gyflogaeth i'n dewis ymgeisydd. Yna byddwn yn cysylltu â'r canolwyr ac os yw'r geirda'n foddhaol, byddwn yn cadarnhau'r cynnig.
- Rydym ni'n cadw'r hawl i beidio â phenodi os ydym o'r farn nad oes unrhyw un o'r ymgeiswyr yn cyrraedd y safon ofynnol.